| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Medi 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Proses Gyllideb 2015/16** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried y diweddariad diweddaraf a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Ers y diweddariad diwethaf, mae pob un o'r cyfarfodydd cyllideb Rhyddid a Hyblygrwydd wedi cael eu cynnal gyda gwasanaethau. Mae'r amserlen isod:

***Tabl 1 – Amserlen Cyfarfodydd Cyllideb Gwasanaeth Rhyddid a Hyblygrwydd***

| **Gwasanaeth** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion a Busnes | 7 Mai |
| Gwella Busnes a Moderneiddio | 13 Mai |
| Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden | 22 Mai |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 29 Mai |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd | 30 Mai |
| Tai a Datblygu Cymunedol | 5 Mehefin |
| Ysgolion, Gwella Ysgolion, Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg | 17 Mehefin |
| Adnoddau Dynol Strategol | 25 Mehefin |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 25 Mehefin |
| Cyllid ac Asedau | 26 Mehefin |
| Priffyrdd a'r Amgylchedd (Rhan 1) | 30 Mehefin |
| Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (Gwasanaethau Ieuenctid) | 21 Gorffennaf |
| Priffyrdd a'r Amgylchedd (Rhan 2) | 4 Awst |
| Cyfrif Refeniw Tai (HRA) | 4 Awst |

Mae'r canlyniadau ar gyfer pob cyfarfod, ynghyd â dadansoddiad llawn o'r gyllideb gwasanaeth, wedi eu cyflwyno i'w hystyried yn y gweithdai cyllideb i'r aelodau. Hyd yn hyn, mae dau weithdy wedi cael eu cynnal ac oherwydd lefel y trafod a dadlau, daeth yn amlwg yn eithaf cyflym y byddai angen dyrannu mwy o amser i ganiatáu digon o gyfle i aelodau drafod pob cyllideb gwasanaeth a chynigion arbed gwasanaeth. Mewn ymateb, mae gweithdai ychwanegol i aelodau wedi eu trefnu ac mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at y tabl isod. Y rhai mewn testun coch yw'r dyddiadau ychwanegol. Bydd y gweithdy a drefnwyd ar gyfer 28 Awst ond yn digwydd os bydd y gweithdai blaenorol yn mynd dros eu hamser.

***Tabl 2 Digwyddiadau Allweddol***

| Digwyddiadau allweddol | Dyddiadau | Statws |
|---|---|---|
| Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | 15 Ebrill 2014 | Wedi'i gwblhau |
| Briffio'r Cyngor | 28 Ebrill | Wedi'i gwblhau |
| Rownd Gyntaf Cyfarfodydd Cyllideb gyda Gwasanaethau | 7 Mai – 4 Awst | Wedi'i gwblhau |
| Diweddariad i Friffio'r Cabinet | 12 Mai | Wedi'i gwblhau |
| Adolygiad UDG o'r Broses | 19 Mai | Wedi'i gwblhau |
| Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | 21 Mai | Wedi'i gwblhau |
| Diweddariad i Friffio'r Cabinet | 2 Mehefin | Wedi'i gwblhau |
| Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | 2 Gorffennaf | Wedi'i gwblhau |
| Diweddariad i'r UDA | 3 Gorffennaf | Wedi'i gwblhau |
| Diweddariad i Friffio'r Cabinet | 7 Gorffennaf | Wedi'i gwblhau |
| Gweithdy Cyllideb Cyntaf i'r Aelodau | 9 Gorffennaf | Gwahoddiadau wedi'i hanfon |
| Yr Ail Weithdy Cyllideb i'r Aelodau | 14 Gorffennaf | Gwahoddiadau wedi'i hanfon |
| Trydydd Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau | 26 Awst | Gwahoddiadau wedi'i hanfon |
| Gweithdy ychwanegol os oes ei angen | 28 Awst | Gwahoddiadau wedi'i hanfon |
| Y Pedwerydd Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau | 2 Medi | Gwahoddiadau wedi'i hanfon |
| Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | 3 Medi | |
| Y Cyngor Sir | 9 Medi | |
| Y Pumed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau | 22 Medi | Yn lle Briffio'r Cyngor |
| Ail Rownd Cyfarfodydd Cyllideb gyda Gwasanaethau | Medi / Hydref cynnar | |
| Diweddariad i Friffio'r Cabinet | 22 Medi | |
| Diweddariad i'r UDA | 2 Hydref | |
| Diweddariad i Friffio'r Cabinet | 6 Hydref | |
| Y Chweched Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau | 8 Hydref | Gwahoddiadau wedi'i hanfon |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Seithfed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **13 Hydref** | **Gwahoddiadau wedi'i hanfon** |
| **Yr Wythfed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **20 Hydref** | **Gwahoddiadau wedi'i hanfon** |
| **Y Nawfed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **27 Hydref** | **Gwahoddiadau wedi'i hanfon** |
| **Diweddariad i Friffio'r Cabinet** | **3 Tachwedd** | |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **5 Tachwedd** | |
| **Diweddariad i Friffio'r Cabinet** | **8 Rhagfyr** | |
| **Y Cyngor Sir** | **9 Rhagfyr** | |
| **Y Degfed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **12 Rhagfyr** | **Gwahoddiadau wedi'i hanfon** |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **17 Rhagfyr** | |
| **Y Cyngor Sir** | **3 Chwefror 2015** | |

Mae'r papurau ar gyfer pob gweithdy wedi cael eu cyhoeddi o flaen llaw yn electronig ac ar ffurf copi caled. Mae'r gweithdai a gynhaliwyd hyd yn hyn wedi cael presenoldeb da ag ystod eang o drafodaeth yn digwydd a nifer o gwestiynau yn cael eu gofyn. Gofynnwyd i Aelodau fynegi barn ynghylch a ddylai cynigion arbed gael eu 'mabwysiadu', 'datblygu', neu eu 'gohirio'. Bydd nifer o gynigion y dynododd yr aelodau y buasent yn fodlon eu mabwysiadu yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo ar 9 Medi.

Bydd diweddariad llafar yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan gynnwys unrhyw bwyntiau a gododd o'r gweithdai cyllideb diweddaraf ac unrhyw faterion perthnasol eraill.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae angen i'r cyngor i sicrhau arbedion o hyd at £18m dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Bydd AEaG yn cael ei gwblhau ar gyfer yr holl gynigion perthnasol wrth i'r broses ddatblygu.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae'r broses wedi cael ei ystyried gan yr UDG, UDA, Briffio’r Cabinet, Briffio’r Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**9. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd hon yn broses heriol iawn gyda rhai penderfyniadau anodd i'w gwneud ar hyd y ffordd. Mae ymrwymiad a chefnogaeth aelodau etholedig yn y broses o wneud penderfyniadau ac archwilio’r broses yn hanfodol.

**10. Beth yw’r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.